OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1756

## Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004

## RHAN IV —

## RHEDEG CYNLLUNIAU LLEOLI OEDOLION

**Rhedeg cynllun lleoli oedolion yn gyffredinol**

**19.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cynllun yn cael ei redeg, a bod llety a gofal personol yn cael eu darparu —

(a) i sicrhau diogelwch oedolion perthnasol;

(b) i sicrhau na leolir oedolyn mewn argyfwng oni bai bod hynny o fudd i'r oedolyn perthnasol;

(c) i ddiogelu oedolion perthnasol rhag camdriniaeth neu esgeulustod;

(ch) i hybu annibyniaeth oedolion perthnasol;

(d) i sicrhau diogelwch a diogeledd eiddo oedolion perthnasol;

(dd) mewn dull sy'n parchu preifatrwydd, urddas a dymuniadau oedolion perthnasol a chyfrinachedd gwybodaeth sy'n ymwneud â hwy; ac

(e) gan roi sylw priodol i ryw, tueddfryd rhywiol, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol ac unrhyw anabledd oedolion perthnasol, a'r ffordd y maent yn dymuno byw eu bywyd.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig, mewn perthynas â rhedeg cynllun lleoli oedolion —

(a) cynnal a chadw chydberthnasau personol a phroffesiynol da gyda staff y cynllun lleoli oedolion, gofalwyr lleoliadau oedolion ac oedolion perthnasol;

(b) annog a chynorthwyo staff i gynnal a chadw chydberthnasau personol a phroffesiynol da gyda gofalwyr lleoliadau oedolion ac oedolion perthnasol; ac

(c) annog a chynorthwyo gofalwyr lleoliadau oedolion i gynnal a chadw chydberthnasau personol a phroffesiynol da gydag oedolion perthnasol.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau priodol i sicrhau bod barn oedolion perthnasol yn cael ei hystyried wrth redeg y cynllun.